



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif 3388 (Cy. 225)

2000 No. 3388 (W.225)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau
Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2)
(Diwygio) (Cymru) 2000**

**The Fresh Meat (Beef Controls)
(No.2) (Amendment) (Wales)
Regulations 2000**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) 1996 (O.S. 1996/2097, fel y'i diwygiwyd eisoes) ("Rheoliadau 1996") mewn perthynas â Chymru. Mae Rheoliadau 1996 yn gymwys i Brydain Fawr gyfan.

1. These Regulations amend the Fresh Meat (Beef Controls) (No.2) Regulations 1996 (SI 1996/2097, as already amended) ("the 1996 Regulations") in relation to Wales. The 1996 Regulations extend to the whole of Great Britain.

2. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gorfodi Erthygl 2.1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2277/2000 yn mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion (OJ Rhif L321, 19.12.2000, t.47). Mae'r Erthygl honno, y daw ei heffaith i ben ar 30 Mehefin 2001, yn darparu mai dim ond os ceir canlyniad prawf negyddol ar gyfer enseffalopathi sbyngffurf buchol drwy brawf cyflym a gymeradwywyd fel y cyfeirir ato yn Atodiad IV(A) o Benderfyniad y Comisiwn 98/272/EC (OJ Rhif L122, 22.4.1998, t.59, fel y'i diwygiwyd) y gellir rhyddhau cig o anifeiliaid buchol sy'n fwy na 30 mis oed ac sydd wedi'u cigydda yn y Gymuned Ewropeaidd ar ôl 1 Ionawr 2001. Mewnosodwyd Erthygl IV(A) yn y Penderfyniad hwnnw gan Benderfyniad y Comisiwn 2000/374/EC (OJ Rhif L135, 8.6.2000, t.27).

2. These Regulations provide for the enforcement of Article 2.1 of Commission Regulation (EC) No. 2277/2000 adopting exceptional support measures for the beef market (OJ No. L321, 19.12.2000, p.47). That Article, which ceases to have effect on 30th June 2001, provides that meat from bovine animals aged more than 30 months and slaughtered in the European Community after 1st January 2001 can only be released for human consumption or for export if tested negatively for bovine spongiform encephalopathy by an approved rapid test as referred to in Annex IV(A) of Commission Decision 98/272/EC (OJ No. L122, 22.4.1998, p.59, as amended). Article IV(A) was inserted into that Decision by Commission Decision 2000/374/EC (OJ No. L135, 8.6.2000, p.27).

3. Yn unol ag adran 65(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (1998 p.38) a Rheol Sefydlog 22.3 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Gweinidog Cynulliad wedi penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol cynnal arfarniad rheoliadol o dan adran 65 o'r Ddeddf oherwydd y dyddiad cau i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, sef 1 Ionawr 2001. Ymgynghorwyd yn unol ag adran 48(4) a (4B) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16) a gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd,

3. The Assembly Minister has decided pursuant to s.65(2) of the Government of Wales Act 1998 (1998 c.38) and Standing Order 22.3 of the Standing Orders of the National Assembly for Wales that it is not reasonably practicable to carry out a regulatory appraisal under s.65 of the Act, due to the deadline for the coming into force of these Regulations of 1st January 2001. Consultation pursuant to section 48(4) and (4B) of the Food Safety Act 1990 (1990 c.16) has taken place and copies may be obtained from the Food

Llawr 1, Southgate House, Caerdydd CF10 1EN.

4. Am yr un rheswm, yn unol ag adran 66(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 22.1, penderfynodd y Gweinidog Cynulliad nad oedd yn rhesymol ymarferol gwneud y Rheoliadau hyn yn Gymraeg a Saesneg. Felly mae'r testun Cymraeg yn gyfieithiad o'r Rheoliadau hyn, sydd wedi'u gwneud yn uniaith Saesneg.

Standards Agency, 1st Floor, Southgate House, Cardiff, CF10 1EW.

4. For the same reason, the Assembly Minister decided, pursuant to S.66(4) of the Government of Wales Act 1998 and standing order 22.1, that it was not reasonably practicable to make these Regulations in English and Welsh. Thus the Welsh text is a translation of these Regulations, which have been made in English only.

2000 Rhif 3388 (Cy. 225)**2000 No. 3388 (W.225)****BWYD, CYMRU****FOOD, WALES****Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000****The Fresh Meat (Beef Controls) (No.2) (Amendment) (Wales) Regulations 2000***Wedi'u gwneud* 29 Rhagfyr 2000*Made* 29th December 2000*Yn dod i rym* 1 Ionawr 2001*Coming into force* 1st January 2001*(Sylwer: yn uniaith Saesneg y gwnaed y Rheoliadau hyn a chyfieithiad ohonynt yw'r testun Cymraeg).**(Note: These regulations were made in English only and the Welsh text is a translation of them)*

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(b) ac (f), 17(1), 26 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(a) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

In exercise of the powers conferred by sections 16(1)(b) and (f), 17(1), 26 and 48(1) of the Food Safety Act 1990(a) and now vested in the National Assembly for Wales (b), the National Assembly for Wales, having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency and after consultation in accordance with section 48(4) and (4B) of that Act makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Citation, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Fresh Meat (Beef Controls) (No.2) (Amendment) (Wales) Regulations 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 1 Ionawr 2001.

(2) These Regulations apply to Wales only and come into force on 1st January 2001.

Diwygiadau i Reoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) 1996**Amendments to the Fresh Meat (Beef Controls) (No.2) Regulations 1996**

2.-(1) Mewn perthynas â Chymru, mae Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2) 1996(c) yn cael eu diwygio yn unol â pharagraff 2 o'r rheoliad hwn.

2.-(1) In relation to Wales, the Fresh Meat (Beef Controls) (No.2) Regulations 1996(c) are amended in accordance with paragraph (2) of this regulation.

(2) Mae'r rheoliad canlynol yn cael ei fewnosod rhwng rheoliad 3 (gwahardd gwerthu cig o anifeiliaid buchol hyn) a rheoliad 4 (y Cynllun Gwarantu Cig Eidion) -

(2) The following regulation is inserted between regulation 3 (prohibition of sale of meat from older bovines) and regulation 4 (the Beef Assurance Scheme) -

(a) 1990 p.16.

(a) 1990 c.16.

(b) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999 / 672).

(b) The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672).

(c) OS 1996/2097, a ddiwygiwyd gan OS 1996/2522 ac OS 2000/656.

(c) SI 1996/2097, amended by SI 1996/2522 and SI 2000/656.

“Enforcement of Article 2.1 of Commission Regulation (EC) No. 2700/2000

3A. No person shall contravene Article 2.1 of Commission Regulation (EC) No. 2777/2000 adopting exceptional support measures for the beef market(a).”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b).

“Enforcement of Article 2.1 of Commission Regulation (EC) No. 2777/2000

3A. No person shall contravene Article 2.1 of Commission Regulation (EC) No. 2777/2000 adopting exceptional support measures for the beef market (a).”.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998 (b).

Jane Hutt

29 Rhagfyr 2000

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

29th December 2000

The Minister for Health and Social Services.

(a) OJ Rhif L321, 19.12.2000, t.47.

(b) 1998 p.38.

(a) OJ No. L321, 19.12.2000, p.47.

(b) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 3388 (Cy. 225)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau
Rheoli Cig Eidion) (Rhif 2)
(Diwygio) (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 3388 (W.225)

FOOD, WALES

The Fresh Meat (Beef Controls)
(No.2) (Amendment) (Wales)
Regulations 2000

©☞ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/182/06/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090235-1



9 780110 902357